Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Drefniadau Trochi yn y Gymraeg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

2 Llys Cadwyn
Stryd y Taf
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 4TH

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025**

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

# Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

| | |
|---|---|
| Enw'r Darparwr | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/10/2025 |

## Cyd-destun

Mae'r ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg yn gymharol newydd, ar ôl cael ei chyflwyno yn 2023, gydag un swyddog arweiniol a dau gynorthwyydd addysgu yn cael eu cyflogi'n ganolog. Gweledigaeth gychwynnol yr arweinwyr oedd datblygu model peripatetig yn hytrach nag agor canolfan drochi ddynodedig / canolfannau trochi dynodedig. Seiliwyd hyn ar ystyriaeth o'r adnoddau oedd ar gael, heriau daearyddol a'r galw disgwyliedig am y gwasanaeth.

Dros gyfnod, mae niferoedd y disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cynyddu ac mae'r ddarpariaeth bellach yn cyflogi swyddog arweiniol a phum cynorthwyydd addysgu. Adeg yr arolygiad, roedd disgyblion ar draws chwe ysgol yn derbyn cymorth. Mae arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau buddiol â swyddogion sy'n gyfrifol am Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol, i integreiddio'u gwaith yn llawn â chyfeiriad strategol yr awdurdod lleol ar gyfer datblygu'r Gymraeg.

Mae'r cwricwlwm o fewn y ddarpariaeth drochi wedi cael ei datblygu dros gyfnod. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys rhaglen 'Taith Iaith' gychwynnol lle mae disgyblion yn derbyn awr i ddwy awr y dydd o gymorth trochi dwys yn y Gymraeg dros ryw 20 wythnos. Mae'r disgyblion hyn hefyd yn cael mwy o gymorth o fewn eu hystafelloedd dosbarth prif ffrwd trwy'r rhaglen 'Ôl-ofalaeth'. Yn ychwanegol, caiff y disgyblion hynny nad oes angen darpariaeth drochi lawn arnynt eu cefnogi trwy raglen 'Siarad Sionc' sy'n cynnig cwricwlwm pwrpasol ar sail unigol neu grŵp bach.

Er nad yw'r rhaglen trochi yn y Gymraeg yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd ar hyn o bryd, mae arweinwyr yn parhau i werthuso'r galw am hyn ynghyd â'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd, yn unol â'u targedau CSCA.

## Crynodeb

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau pwrpasol a chynhwysol o ran trochi yn y Gymraeg sy'n hyrwyddo lles a hyder disgyblion i gaffael yr iaith yn llwyddiannus. Maent yn disgrifio gweledigaeth strategol glir sy'n alinio'n dda â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Trwy gydweithio'n effeithiol ag ysgolion, staff a theuluoedd, mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi'n effeithiol wrth iddynt ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg.

Mae staff yn eiriolwyr ymroddgar a brwdfrydig dros y Gymraeg. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ffynnu fel dysgwyr a siaradwyr Cymraeg datblygol. Mae staff yn hyrwyddo a sefydlu amgylchedd dysgu croesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn hynod gadarnhaol, ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer eu lles yn gryfder nodedig.

Mae staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol ac, ar y cyfan, yn defnyddio strategaethau addysgu pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad systematig medrau iaith disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Mewn ychydig iawn o sesiynau, nid yw gweithgareddau'n symud ymlaen ar gyflymdra digon chwim ac nid ydynt yn herio disgyblion yn ddigon cyson. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at y Gymraeg, ac maent yn ymfalchïo yn eu gallu i siarad Cymraeg. Dros gyfnod, mae disgyblion yn gynyddol rugl a hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol, ac yn cymhwyso'u medrau'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr wedi datblygu prosesau addas ar gyfer monitro ansawdd y ddarpariaeth ac maent yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro bob amser yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith yr addysgu ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol yn cynorthwyo staff i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut mae disgyblion yn caffael iaith a sut i hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol. Mae cyfleoedd i rannu'r agweddau mwyaf effeithiol ar addysgu â staff ar draws y ddarpariaeth drochi, fel defnyddio technegau holi effeithiol a strategaethau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn llai datblygedig.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r awdurdod lleol i barhau i wella, sef:

A1. Ymestyn prosesau monitro i sicrhau gwell ffocws ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion

A2. Datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ymhellach ar gyfer staff

## Beth sy'n digwydd nesaf

### Ddim mewn gweithgarwch dilynol

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr wedi sefydlu darpariaeth bwrpasol o ran trochi yn y Gymraeg, sy’n galluogi disgyblion i gaffael yr iaith yn systematig a datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Maent yn hyrwyddo ethos cynhwysol ac anogol sy’n pwysleisio lles ac yn datblygu hyder disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu â’u dysgu ac yn gwneud cynnydd cynaledig yn eu medrau Cymraeg o ran siarad a gwrando. Mae hyn, yn ei dro, yn cynorthwyo disgyblion i gymhwyso’u medrau ar draws ystod o gyd-destunau.

Mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth strategol glir ar gyfer datblygu’r ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg sy’n alinio’n dda â blaenoriaethau’r CSCA. Mae’r weledigaeth hon wedi’i seilio ar annog ymdeimlad cryf o werth dysgu Cymraeg a gwneud dysgu’n hwyl. Mae arweinwyr yn rhannu’r weledigaeth hon yn addas ac yn sefydlu partneriaethau effeithiol â staff a theuluoedd ysgolion i gynorthwyo disgyblion i gaffael y Gymraeg. Mae’r ymdeimlad hwn o ddiben ar y cyd yn cyfrannu’n gadarnhaol at ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae arweinwyr yn eiriolwyr angerddol dros y Gymraeg. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain ac eraill, ac yn dyheu am ymestyn y ddarpariaeth yn barhaus dros amser. Mae arweinwyr yn sicrhau ystod addas o brosesau i fonitro ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys arsylwi sesiynau addysgu a thrafodaethau rheolaidd â staff. Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o gryfderau’r ddarpariaeth a’r meysydd i’w gwella. Maent yn defnyddio’r ddealltwriaeth hon i osod blaenoriaethau datblygu priodol. Ar adegau, nid yw gweithgareddau monitro yn canolbwyntio’n ddigon agos ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.

Ar draws y ddarpariaeth, mae staff yn datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol â disgyblion, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr. Maent yn sefydlu amgylcheddau dysgu digynnwrf a chefnogol sy’n annog disgyblion i arbrofi ag iaith a mentro â geirfa newydd. Mae staff yn modelu’r Gymraeg yn bwrpasol ac yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu yn effeithiol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu geirfa a strwythurau brawddeg newydd yn bwrpasol, a’u cymhwyso’n gywir mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae’r addysgu yn ennyn ymgysylltiad disgyblion yn llwyddiannus ac yn datblygu eu medrau’n gynyddol. Mae staff yn defnyddio ystod briodol o strategaethau addysgu i atgyfnerthu’r dysgu. Mae’r defnydd medrus o ailadrodd, caneuon a gweithgareddau rhyngweithiol yn cynorthwyo disgyblion i adalw patrymau iaith yn hyderus. Mae’r dull ‘ailfodelu’ a ddefnyddir i amlygu camgymeriadau mewn modd sensitif yn gryfder yn y ddarpariaeth ac yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu rhuglder disgyblion. Yn yr arfer orau, mae staff yn cynllunio gweithgareddau sy’n symud ymlaen ar

gyflymdra addas ac yn darparu lefelau priodol o her. Mewn ychydig iawn o enghreifftiau, mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf ac nid yw tasgau'n herio disgyblion yn ddigonol. Yn yr achosion hyn, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn canolbwyntio'n bwrpasol ac nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant.

Mae staff yn defnyddio adnoddau, yn cynnwys ardaloedd yn yr awyr agored ac offer digidol, i gefnogi dysgu'r disgyblion yn greadigol. Er enghraifft, maent yn defnyddio gemau rhyngweithiol yn effeithiol i atgyfnerthu geirfa a hyrwyddo cydweithio. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff gweithgareddau dysgu eu haddasu'n fedrus i adlewyrchu diddordebau disgyblion a'u cam datblygu, gan sicrhau bod dysgu'n parhau yn bwrpasol a chymhellol.

Mae'r trefniadau i asesu cynnydd disgyblion yn gydlynus a phwrpasol. Mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau i olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi'r camau nesaf yn y dysgu ac yn addasu'r addysgu i ddiwallu anghenion unigol disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n agos ac fe gaiff gwybodaeth am gynnydd disgyblion ei rhannu'n bwrpasol â staff yn y dosbarth prif ffrwd i gefnogi cysondeb a pharhad yn nysgu'r disgyblion. Maent yn holi disgyblion yn fedrus i brocio dealltwriaeth ac yn annog disgyblion i ehangu ar eu hatebion. Mewn ychydig o achosion, mae'r holi wedi'i or-gyfarwyddo ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn annibynnol.

Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda ac yn cefnogi datblygiad cynyddol medrau Cymraeg disgyblion fel patrymau iaith a strwythurau brawddeg yn effeithiol. Mae rhaglenni 'Taith Iaith', 'Siarad Sionc' ac 'Ôl-ofalaeth' yn sicrhau bod staff yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae profiadau dysgu'n darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ymarfer defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau dilys defnyddiol, er enghraifft trwy chwaraeon, y celfyddydau creadigol a gweithgareddau yn y gymuned. Mae hyn yn cefnogi gallu disgyblion i drosglwyddo medrau'n hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd. Caiff amrywiaeth o adnoddau, fel y 'Cardiau Clebran', eu defnyddio'n greadigol i atgyfnerthu ac ymestyn dysgu disgyblion ymhellach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn gwrando'n astud, yn ymateb yn frwdfrydig ac yn defnyddio geirfa berthnasol â chywirdeb cynyddol. Mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o ymgysylltiad a dyfalbarhad, ac mae eu brwdfrydedd dros ddysgu Cymraeg yn amlwg yn eu parodrwydd i ddefnyddio'r iaith yn ddigymell. Maent yn dangos balchder cynyddol yn eu cyflawniadau ac yn eu hunaniaeth fel siaradwyr Cymraeg.

Mae lles disgyblion yn gryfder amlwg yn y ddarpariaeth. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn eu cynorthwyo'n sensitif, gan greu awyrgylch digynnwrf a chynhwysol lle mae

disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgyblion yn gwybod at bwy y gallant droi am gymorth ac yn teimlo bod staff yn eu trin yn deg. Bron yn ddieithriad, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn trin pobl eraill â pharch a charedigrwydd. Mae hyn yn cyfrannu at ddiwylliant dysgu cadarnhaol lle caiff disgyblion eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u gweithredoedd eu hunain. Mae cyfleoedd pwrpasol i staff a disgyblion ddathlu cyrraedd cerrig milltir iaith yn atgyfnerthu hyder disgyblion a'u cymhelliant i lwyddo ymhellach.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol yn bwrpasol ac mae staff yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan arweinwyr. Maent yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i rannu arfer effeithiol a chymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu dealltwriaeth staff o sut mae disgyblion yn datblygu eu medrau iaith dros gyfnod a sut i gefnogi lles disgyblion. Caiff arfer effeithiol ei rhannu'n addas â staff yn y ddarpariaeth brif ffrwd. Megis dechrau datblygu y mae dysgu proffesiynol i ymestyn dealltwriaeth staff o ddefnyddio technegau holi effeithiol a chynorthwyo disgyblion ag ystod ehangach o anghenion dysgu ychwanegol.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau, gan gynnwys cyllid grantiau, yn briodol i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth drochi ymhellach. Mae hyn yn cefnogi creu amgylcheddau dysgu ysgogol a darparu adnoddau dysgu effeithiol. Mae cynllunio strategol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol, ac mae gan arweinwyr ymrwymiad clir i ddatblygu lles a medrau Cymraeg disgyblion.

At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg yn rhoi sylfaen gref i ddisgyblion gaffael a defnyddio'r Gymraeg â hyder cynyddol. Mae'r ethos cynhwysol, yr addysgu effeithiol a'r ymdeimlad clir o ddiben yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu medrau a lles disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn ymrwymedig a brwdfrydig ynglŷn â hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadael y ddarpariaeth yn siaradwyr Cymraeg hyderus a medrus sy'n gallu manteisio ar y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff, arweinwyr a phenaethiaid ysgolion cofrestredig disgyblion trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn arsylwi addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- yn cyfarfod â disgyblion (cyn-ddisgyblion a disgyblion presennol) i drafod eu gwaith a chael eu barn ar agweddau amrywiol ar waith y darparwr
- yn cyfarfod â staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig disgyblion ac eraill i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso
- yn ystyried y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) / y cynllun gwella ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau wedi'u cynllunio
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. 'y rhan fwyaf o ddisgyblion…' neu 'ychydig iawn o ddisgyblion…'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025